***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 3423 (Cy.304)

# CEFN GWLAD, CYMRU

## Gorchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2007

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *4 Rhagfyr 2007* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *5 Rhagfyr 2007* |
| *Yn dod i rym - -* | *31 Rhagfyr 2007* |

Mae Gweinidogion Cymru, ar ôl ymgynghori â'r cyngor ar gyfer y brif ardal y mae rhan ohoni'n rhan o Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro, a chan arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 63(1) a (5) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995(**1**) a pharagraffau 1(2) a 2(3) o Atodlen 7 iddi ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy (**2**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2007.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 31 Rhagfyr 2007 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "y prif Orchymyn" ("*the principal Order*") yw Gorchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru)1995(**3**).

### Diwygio Gorchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995

**3.**—(1) Diwygir y prif Orchymyn yn unol â'r paragraffau canlynol.

(2) Yn Rhan I o Atodlen 2 i'r prif Orchymyn, yn lle—

(**1**) 1995 p.25. *Gweler* adran 79(1) am y diffiniad o 'prif ardal'.

(**2**) Trosglwyddwyd y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 63(1) a (5) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 a pharagraffau 1(2) a 2(3) o Atodlen 7 iddi, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru.

(**3**) O.S. 1995/2803

| | |
|---|---|
| "Pembrokeshire Coast National Park Authority | |
| Local authority members | 10 |
| Secretary of State members | 5 |
| Total number of members | 15" |

rhodder

| | |
|---|---|
| "Pembrokeshire Coast National Park Authority | |
| Local authority members | 12 |
| Members appointed by the Welsh Ministers | 6 |
| Total number of members | 18" |

(3) Yn Rhan II o Atodlen 2 i'r prif Orchymyn, yn lle "Pembrokeshire County Council 10" rhodder "Pembrokeshire County Council 12".

*Jane Davidson*
Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, un o Weinidogion Cymru

4 Rhagfyr 2007

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n dod i rym ar 31 Rhagfyr 2007, yn diwygio Gorchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995 (y prif Orchymyn).

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Rhannau I a II o Atodlen 2 i'r prif Orchymyn fel bod nifer aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn codi o 15 i 18. Cyfanswm nifer yr aelodau yw 12 o aelodau awdurdod lleol a 6 aelod a benodir gan Weinidogion Cymru.

Ni luniwyd asesiad effaith reoleiddiol llawn ar gyfer yr offeryn hwn gan na ragwelir y bydd yr offeryn yn effeithio o gwbl ar y sector preifat na'r sector gwirfoddol.